TIR COED

RHEOLAETH A CHYNNYRCH COEDWIGOEDD

A) "Cleber Coed" – rheoli coedwigoedd bychain

Roedd y gweithdy yma yn edrych ar y gwahanol agweddau ac amcanion wrth reoli coedwigoedd bychain. Ymwelwyd a 2 goedwig wahanol yn ardal Llanfarian ac, ymysg pethau eraill, cafwyd arweiniad ar :

- Adnabod rhywogaethau gwahanol;
- Dewis coed i'w teneuo;
- Ffyrdd gwahanol o dynnu coed allan o'r goedwig;
- Defnyddiau mwyaf addas i wahanol rywogaethau;
- Sut i reoli llawr dyfiant;
- Rheoli coedwig i gadwraeth;
- Manteision cymdeithasol a chymunedol coedwigoedd;
- Cynlluniau a rheolau ariannu coedwigoedd.

B) Arddangosfa Llifio Coed Fferm

Cynhaliwyd yr arddangosfa yma ar Fferm Maenarthur, Pontrhydygroes, ar y 25ain o Fedi, 2003, mewn partneriaeth a Chyswllt Ffermio.

Pwrpas y dydd oedd rhoi arddangosfeydd gweithiol a sgyrsiau i berchnogion coedwigoedd fferm i amlygu manteision (neu anfanteision) llogi llifau a phroseswyr symudol ar y fferm.**Gwelwyd y peiriannau canlynol yn gweithio yn ystod y dydd – 2 lif symudol, holltwr polion, prosesydd coed tân a sglodiwr pren.**

Paratowyd taflenni gwybodaeth am y gost a'r incwm arfaethedig o lifio a phrosesi coed y fferm; gwybodaeth ar gynhyrchu planciau ac estyll llawr, sut i baratoi a stacio coed i'w sychu, gwybodaeth cyffredinol ar gostau llogi y peiriannau a'r swm o goed y gallant eu prosesi wrth yr awr, ynghyd a manylion am y Cynllun Ariannu Coedwigoedd presennol.

Roedd cynrychiolwyr o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Coed Cymru, Cyswllt Ffermio, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefngwlad Cymru, y Forestry Contracting Association a Thir Coed yn bresennol.

GWYBODAETH DILYNOL

OAK:

The Oak site was a remnant of the ancient sessile forest and showed evidence of either coppicing or clear felling in the past. This had lead to an even aged site with no regeneration (due to continuous livestock grazing). The last felling could well have been during the first world war.

The site was approx. 0.9ha (2.2 acres) and was situated on a bank above a stream; it was not on any woodland grant schemes. Having had no management over the past two generations, the plan was to take out the poorer stems during this first thinning, leaving the better quality timber to mature. The next thinning should take place in 7 – 10 years time, when better quality stems will be available.

Extraction, sorting and stacking took place, under dry conditions, within two working days during early September by two local woodland contractors using a 90 h.p. Massey Ferguson tractor with front end loader and 3-tonne timber winch.

The felled Oak was converted into fencing posts, strainers, square gate posts, planks, beams (mostly character, i.e. with large knots and other defects) and firewood.
Some of the brash was chipped for demonstration purposes, although the majority was left in the woods to benefit the wildlife. Much of the fencing materials and gate posts produced will be utilised on farm; the planks and beams were sold at a local timber auction.

LARCH:

The Larch presented was from an early 1950s plantation growing on a slope behind the farmhouse. The Larch was felled in order to demonstrate the saws' abilities to work on larger diameter timber.

The felled Larch was converted into square gate posts, planks and beams. The gate posts produced will be utilised on farm, the planks and beams were sold at a local timber auction.

For financial information on the above contact Tir Coed.

C) Ocsiwn Pren

Yn dilyn syniad a gynigiwyd gan berchennog coed lleol, cynhaliwyd ocsiwn pren yn yr Ystwyth. Y bwriad oedd cynnig man canolog ple gellid gwerthu parseli bach (a mawr) o goed lleol. Roedd modd cynnig pren mewn unrhyw ffurf i'w werthu.

Yn sicr, diwrnod i'r prynwyr oedd hwn gan fod y prisiau a ddenwyd yn isel. Ond roedd yn gyfle da i dyfwyr a defnyddwyr coed i gwrdd a'i gilydd i drin a thrafod y sector.

Ar ddiwedd y dydd, roedd y gwerthwyr yn awyddus i gael digwyddiad tebyg eto y flwyddyn nesaf. Gobeithir cynal ail ocsiwn yn ystod yr Hydref, 2004.

D) **Arddangosfa Tynnu Coed.**

Ym mis Hydref, 2004 trefnwyd arddangosfa tynnu coed yng nghoedwig yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol ar barc Dinefwr, Llandeilo. Mae'r goedwig, a ddefnyddiwyd trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllwein Cymru, yn cynnwys cymysgedd o rywiogaethau o wahanol oed. Mae'n nodweddiadol o'r math o goedwig sy'n berchen i ffermwyr a thirfeddianwyr trwy Gymru.

Gall manteisio ar ardaloedd coediog gynnig cyfleoedd i greu incwm o werthiant pren yn ogystal a darparu defnydd i'r fferm ar gyfer ffensio a thanwydd.

Roedd Tir Coed wedi trefnu i aelodau o'r "Forestry Contracting Association" a chontractwyr lleol arddangos dulliau effeithiol, syml o lusgo a chario coed gan ddefnyddio peiriannau amaethyddol, fel winsh, beic cwad a llithren polion. Yn ogystal a'r peirianwaith, bu diddordeb mawr yng ngwaith "Monty", mul mawr a fu'n arddangos medr a dealltwriaeth neilltuol wrth lusgo coed.

Dangoswyd sut y medr ceffylau ddygymod a llethrau serth a chul, sy'n nodweddiadol yng nghefn gwlad Cymru, ple mae'n amhosib i beiriannau weithredu. Hefyd mae'r difrod amgylcheddol i fywyd gwyllt yn cael ei leihau wrth ddefnyddio ceffyl.

Cefnogwyd y dydd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Choed Cymru ac roedd arbenigwyr o'r ddau sefydliad wrth law i gynnig cyngor.

Cyflwynwyd pecyn gwybodaeth i'r ymwelwyr oll yn cynnwys taflenni gwybodaeth technegol ar pob elfen o'r arddangosfa a chysylltiadau defnyddiol o fewn y sector goedwigaeth.

E) **Diwrnod Agored "Cynaeafu eich Coed"**

Ym mis Chwefror, 2005, cynhaliwyd diwrnod agored yng nghoedwigoedd Fferm Brynmelin, Llanwrin, gyda chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru. Amcan y dydd oedd dangos gwahanol ddulliau o ychwanegu gwerth i goedwigoedd bychain.

Mae Fferm Brynmelin, fel llawer o ffermydd mynydd Cymru, yn cynnwys ardaloedd o goedwigoedd serth, mae'r ardaloedd yma wedi eu rheoli yn effeithiol gan y perchennog, Mr. Hugh Jones, trwy raglen o deneuo ac ail-blannu.

Ar hyn o bryd mae gan Mr. Jones farchnad parod i bolion ffensio derw i gyflenwi'r galw gan ffermydd o fewn y cynllun "Tir Gofal".

Roedd Mike Richards, swyddog Coed Cymru ym Mhowys, wrth law i gynnig gwybodaeth ar wahanol farchnadoedd a dulliau o farchnata pren.

Gall ffermwyr fanteisio ar gynnyrch eu coedwigoedd i gyflenwi gofynion y fferm o ran ffensio ac adeiladu, ynghyd a choed tân.

Arddangoswyd a thrafodwyd amrywiaeth o ddulliau symudol o brosesi coed gan ddefnyddio contractwyr lleol ac aelodau o'r "Forestry Contracting Association".

Dangoswyd llif Woodmizer, holltydd pren, prosesydd coed tân a melin llifgadwyn Alaska wrth eu gwaith.

Cafwyd arddangosfa o gerfio gyda llifgadwyn fel modd arall o ychwanegu gwerth i bren israddol.

Bu Ian Sheffner (arbenigwr peirianwaith coedwigaeth) yn son am elfennau iechyd a diogelwch wrth weithio o fewn coedwigoedd; ef hefyd fu'n arddangos llithren polion, a adeiladwyd ar gyfer y diwrnod, wedi ei llunio o ddrymiau plastig 45-galwyn ailgylchedig oedd wedi eu hanneri a'u bolltio at ei gilydd. Mae'r llithren yma yn ffordd effeithiol o dynnu polion allan o ardaloedd serth a chyfyng.

Cafodd pawb a fynychodd y diwrnod agored becyn sylweddol o wybodaeth am pob elfen o gynnwys y dydd a chysylltiadau defnyddiol o fewn y sector goedwigaeth.